Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff

Rhodfa Brackley
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7UU

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir. Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan mae'n ysgol â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 231 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 171 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 27.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 7.0% |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 4.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 9.9% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/02/2019 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 29/06/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn sicrhau bod Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn amgylchedd croesawgar a gofalgar trwy eu hymrwymiad clir i lefelau uchel o gynhwysiant a lles. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfeillgar a chwrtais ac yn mwynhau dod i'r ysgol, lle maent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal.

Mae disgyblion iau yn elwa ar brofiadau dysgu difyr a phwrpasol sy'n cael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion a datblygu eu hannibyniaeth. Mewn dosbarthiadau ar gyfer disgyblion hŷn, yn rhy aml, mae diffyg cyflymdra, diben a her i'r addysgu, ac nid yw gwersi'n symud dysgu disgyblion ymlaen yn ddigon da. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu gan nad yw'n diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu diddordebau, ac mae ychydig bach o darfu yn dod i'r amlwg. Mae adborth yn anghyson ac nid yw'n galluogi disgyblion i wella'u gwaith na nodi'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn golygu nad yw gormod o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar gyfer disgyblion hŷn yn ddigonol trwy hunanwerthuso a dysgu proffesiynol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn huawdl ac yn siarad yn glir ac yn ystyriol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus a gyda dealltwriaeth dda. Mae disgyblion iau yn datblygu eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn effeithiol, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o destunau mwy cymhleth. Fodd bynnag, mae anghysondebau wrth addysgu ysgrifennu yn golygu nad yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digon da.

Mae llawer o staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu gofyn ac ateb ystod o gwestiynau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau digidol, ac mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod uwch arweinwyr yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu, yn enwedig yn y dosbarthiadau ar gyfer disgyblion hŷn

A2 Sicrhau bod defnydd arweinwyr o weithgareddau hunanwerthuso a monitro yn ysgogi gwelliant angenrheidiol yn safonau disgyblion

A3 Sicrhau bod addysgu a darpariaeth yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau'n gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol

A4 Sicrhau bod addysgu ac asesu yn herio disgyblion ar lefel addas a bod adborth yn eu helpu i wneud cynnydd â'u dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif werthusiad

Mae gan arweinwyr yn Ysgol Sant Joseff weledigaeth glir i hyrwyddo lefelau lles uchel a diwylliant cryf o berthyn ar draws yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n gyson gan aelodau o gymuned yr ysgol, ac mae arwyddair yr ysgol, sef "Tyfu mewn cariad" ("Grow in love"), yn sail iddi. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar ac anogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ddiogel. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion â'u medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn hyderus. Maent yn ymgysylltu'n dda ag oedolion a'u cyfoedion ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol ac emosiynol yn dda trwy ystod o gyfleoedd gwerthchweil. Mae cymryd rhan mewn ystod o rolau arwain yn cynorthwyo llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu hyder a'u medrau arwain yn dda. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo lles, cynaliadwyedd a'r Gymraeg.

O'u mannau cychwyn unigol, mae disgyblion iau yn elwa ar ystod o weithgareddau wedi eu cynllunio'n dda sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cryf gydag ystod o fedrau. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda ac yn datrys problemau yn llwyddiannus. Mae athrawon yn addasu darpariaeth yn fedrus i weddu gweithgareddau i gyfnod datblygu disgyblion.

Yn y dosbarthiadau ar gyfer disgyblion hŷn, mae ansawdd yr addysgu a phrofiadau dysgu disgyblion yn rhy amrywiol ac nid ydynt yn cynorthwyo disgyblion i wneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau'n herio disgyblion yn ddigonol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni, ac nid yw cyflymdra'r dysgu yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd effeithiol. Yn y gwersi hyn, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i gynnal eu meddwl neu wneud penderfyniadau am sut maent yn cynllunio ac yn gwneud eu gwaith. Mae hyn yn rhwystro'u medrau dysgu'n annibynnol.

Yn y dosbarthiadau iau, mae oedolion yn defnyddio technegau holi effeithiol i asesu dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu dysgu. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw prosesau adborth yn gyson ar draws yr ysgol. Yn rhy aml, nid ydynt yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu neu'n nodi ac yn mynd i'r afael â chamdybiaethau disgyblion yn ddigon da.

Mae cwricwlwm yr ysgol ar gyfer disgyblion iau yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer dilyniant medrau, ac mae cyfleoedd annigonol i

ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn profiadau dysgu pwrpasol a dilys. Mae hyn yn cyfyngu ar eu hymgysylltiad yn eu dysgu. Yn rhy aml, mae disgyblion hŷn yn treulio amser yn cwblhau tasgau lefel isel nad ydynt yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu diddordebau yn ddigon da.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol. Mae rhaglen gwrthfwlio'r ysgol wedi cyfrannu'n llwyddiannus at leihau achosion o wrthdaro a bwlio yn ystod amseroedd chwarae. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i ofyn am gymorth os ydynt yn teimlo'n anniogel neu'n profi bwlio, ac yn hyderus yr eir i'r afael â materion.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'n rheolaidd yn dda ac yn gweithio'n gadarnhaol gyda theuluoedd a phartneriaid allanol i gynorthwyo disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol wedi gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn chwarae a dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi a thrwy gydol y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, yn y dosbarthiadau ar gyfer disgyblion hŷn, lle mae addysgu yn llai effeithiol, mae ychydig bach o darfu yn effeithio ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bryd i'w gilydd.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar ac yn effeithiol. Mae cymorth gwerthfawr yn helpu llawer o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd buddiol. Caiff darpariaeth 'Pila-Pala' yn yr ysgol effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'n cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i ddatblygu gwydnwch, medrau hunanreoleiddio a pharodrwydd i gymryd rhan yn llwyddiannus ym mywyd yr ysgol a dysgu.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau llafaredd da. Maent yn siarad â hyder ag oedolion ac â'i gilydd gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae disgyblion iau yn siarad yn glir am yr hyn y maent wedi'i ddysgu gan ymwelwyr, er enghraifft sut i gadw'n ddiogel mewn dŵr ar ôl ymweliadau gan yr RNLI. Mae defnydd a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg yn gryf. Mae staff yn modelu defnydd o'r iaith yn dda, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn dda. Maent yn sefydlu gwybodaeth dda am lythrennau a seiniau, y maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus i ddarllen testunau syml. Mae disgyblion hŷn yn darllen testunau mwy cymhleth yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth glir. Maent yn defnyddio medrau darllen yn dda i resymu a dod i gasgliad am ystyr o destunau.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno dull newydd o addysgu ysgrifennu. Megis dechrau datblygu y mae hyn ac mae ansawdd yr addysgu i gefnogi medrau ysgrifennu disgyblion yn amrywiol o hyd. Mae gormod o weithgareddau sy'n cael eu gor-gyfarwyddo, ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn gosod disgwyliadau isel ac yn cyfyngu ar ysgrifennu disgyblion. Mae hyn yn golygu nad yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu mathemateg yn briodol. Yn y dosbarthiadau iau, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am rif, siâp, gofod a data yn dda yn yr amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae athrawon yn sicrhau ymdriniaeth addas â medrau mathemategol, er bod cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn defnyddio ystod eang o offer digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithgareddau hunanwerthuso trwy gydol y flwyddyn. Lle mae'r rhain yn fwyaf buddiol, maent yn sicrhau gwelliannau yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, nododd arweinwyr a llywodraethwyr fod angen gwella cyfraddau presenoldeb. Cyflwynon nhw brosesau newydd i nodi a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael a arweiniodd at bresenoldeb mwy rheolaidd grwpiau targedig o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso yn gyffredinol yn canolbwyntio'n ddigon craff ar ansawdd yr addysgu a'r effaith a gaiff hyn ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr yn nodi anghenion datblygiadol athrawon yn ddigon da, ac oherwydd hyn, yn aml, nid yw dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar wella'r agweddau pwysicaf ar addysgu. Nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael ag addysgu aneffeithiol yn briodol. Yn rhy aml, nid yw arweinwyr yn monitro effaith mentrau newydd ar gynnydd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Mae'n dwyn ystod o brofiadau a medrau i gefnogi a datblygu gwaith yr ysgol. Mae ganddo ymrwymiad cryf i wella'i effaith ar yr ysgol. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth y corff llywodraethol o ansawdd dysgu ac addysgu yn yr ysgol yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio'r gyllideb sydd ar gael yn briodol i staffio'r ysgol, darparu adnoddau addas ac amgylchedd pwrpasol a gynhelir yn dda. Maent yn cynllunio a monitro gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026